

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga
Dydd Mawrth, 16eg Ionawr, 2024, 10.00 am

CYNGHORWYR YN BRESENNOL: Cynghorydd Sirol Tudor Thomas (Cadeirydd)

Cynghorydd Sirol: Lisa Dymock, Tony Easson, Christopher Edwards,
Simon Howarth, Jane Lucas, Jayne McKenna, Alistair Neill,
Sue Riley, Dale Rooke, Jackie Strong, Armand Watts

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

David Jones	Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd
Linda O'Gorman	Prif Swyddog Trwyddedu
Paige Moseley	Solicitor
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democraataidd

YMDDIHEURIADAU:

Dim.

1. Datganiadau o Fuddiant.

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

2. I gadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 5 Medi 2023 a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

3. Adolygiad o Ffioedd Trwyddedu Blynnyddol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2024/25.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Trwyddedu adroddiad yr Adolygiad o'r Ffioedd Trwyddedu Blynnyddol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2024/25.

<https://www.youtube.com/live/h9tz41Ucxfs?si=KVhYtnP-YfyXoDik&t=180>

Penderfynwyd:

- (i) cymeradwyo'r ffioedd a nodir yn Atodiad A yr adroddiad dan y teitl "Rhestr o Ffioedd Trwydded 2024-25% yn amodol, lle'n berthnasol, ar unrhyw hysbysiad cyhoeddus gofynnol.
- (ii) dod ag unrhyw wrthwynebiadau, a wnaed yn briodol, parthed ffioedd ar gyfer dyfarnu trwyddedu cerbydau hacni a hur preifat yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio ar y cyfle cynharaf ar gyfer ystyriaeth briodol.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga
Dydd Mawrth, 16eg Ionawr, 2024, 10.00 am

4. Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd.

Gwaharddwyd y wasg a'r cyhoedd o'r cyhoedd pan oedd yr eitem ddilynol o fusnes yn cael ei hystyried yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn golygu datgeliad tebygol ar wybodaeth eithriedig a ddiffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

5. Ystyried a yw'r gyrrwr yn "Gymwys a Phriodol" i feddu ar Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

Penderfynwyd gohirio ystyried cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Hur Preifat i gyfarfod yn y dyfodol o'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio, gan fod yr ymgeisydd wedi methu cyfarfod heddiw oherwydd profedigaeth deuluol.

6. Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

Dydd Mawrth 27 Chwefror am 10.00am.